

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol y Cyngor 13 Mai 2019 am 7.30yh yng Nghapel Penyparc

Presennol

Cyng. Dilwyn Jenkins (*Cadeirydd*)

Cyng. Llinos Price

Cyng. Peter Williams

Y Cyng. Clive Davies (*aelod lleol o'r Cyngor Sir*)

Mrs Melanie Davies (*Clerc*)

Cyng. Auriol Williams (*Is-gadeirydd*)

Cyng. Matthew Morgan

Cyng. Lloyd Jenkins

Mrs Hildreth Owen (*Cyn-Glerc, gadawodd am 7.45pm*)

1. Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i'r cyfarfod blynyddol yn y Capel wedi'i weddnewid. Llongyfarchodd aelodau'r capel am eu gwaith. Diolchodd am 20 mlynedd o wasanaeth y Cyng. Ann Stokoe i'r Cyngor.

2. Penodi Cadeirydd am y flwyddyn 2019-20

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins fod y Cyng. Auriol Williams yn cael ei hethol yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2019-20; eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins. Diolchodd y Cyng. Auriol Williams i'r Cyng. Dilwyn Jenkins am 40 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor Cymuned fis Gorffennaf hwn. Diolchodd am ei waith caled a'i longyfarch am gyrraedd y garreg filltir hon. Diolchodd i Mrs Hildreth Owen am ei holl waith fel clerch am naw mlynedd a dymunwyd yn dda iddi.

3. Llofnodi datganiad derbyn swydd, ac ymrwymo i'r Côt Ymddygiad gan y Cadeirydd newydd.

Gwahoddwyd y Cadeirydd, y Cyng. Auriol Williams, i ddarllen ac arwyddo'r ddogfen "Datganiad Derbyn Swydd" a'i hymrwymiad i barchu'r côd ymddygiad.

4. Penodi Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2019-20

Cynigiwyd gan y Cyng. Matthew Morgan fod y Cyng. Lloyd Jenkins yn cael ei ethol yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2019-20; eiliwyd gan y Cyng. Peter Williams.

5. Ymddiheuriadau am absenoldeb: Y Cyngorwyr Lyn Jones, Eurig Lloyd, Des Davies.

6. Datgan buddiannau personol: Dim.

7. Cytuno Lwfans i'r Cadeirydd am y flwyddyn 2019-20

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins fod y swm o £500 y flwyddyn i'w dalu mewn dau randaliad.

8. Penodiadau Allanol am 2019-20:

a) Pwyllgor Rheoli Ystafell Berkley:

Y Cyngorwyr Dilwyn Jenkins, Llinos Price, Peter Williams, Des Davies a Lloyd Jenkins

b) Cynrychiolwyr Pwyllgor Lles Penyparc:

Y Cyngorwyr Des Davies, Llinos Price

c) Cynrychiolydd Pwyllgor Lles a Neuadd y Ferwig:

Y Cadeirydd.

d) Cynrychiolydd Sianel Glir Afon Teifi Cyf.:

Y Cyng. Dilwyn Jenkins.

e) Llywodraethwr Ysgol Gymunedol Penyparc:

Y Cyng. Eurig Lloyd

f) Cyfreithwyr:

George, Davies & Evans

g) Archwilydd Craffu'r Cyfrifon:

Cyng. Matthew Morgan

h) Archwilydd Mewnol y Cyfrifon:

Mr Ken Griffiths, Lleifior, Ferwig

9. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol:

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins fod cofnodion mis Ebrill yn gywir.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

10. Materion yn codi.

- (a) **Porth y Gymuned:** Cytunwyd i Carys Owens ddod ar ddechrau cyfarfod mis Gorffennaf i roi cyflwyniad.
(b) **Ethol Cynghorydd Newydd.** Angen gwneud trefniadau i hysbysebu lle gwag ar y Cyngor. Clerc i wneud ymholiadau.

11. Ceisiadau am gymorth ariannol.

I'w penderfynu ym misoedd Ebrill a Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.
Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru I'w drafod ym mis Hydref 2019

12. Cynllunio

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A190239	Clyn Bach, Gwbert Adfer annedd a chodi estyniad	Nid oes gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad.

Anfonwyd y sylwadau uchod at y Cyngor Sir ar 14/05/19

13. Materion Ariannol

Biliau i'w talu.

Cyflog y Clerc (Ebrill 2019)	101763	£308.97
Costau'r Clerc (Ebrill 2019)	101764	£40.80
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Ebrill 2019)	101765	£77.00
Dŵr Cymru (Dŵr i'r ystafelloedd newid, Ystafell Berkley)	101766	£68.24
Mr Ken Griffiths (Archwilydd mewnol)	101767	£165.00
Insignia	101768	£85.06
Zurich	101769	£734.18
Lwfans y Cadeirydd am 6 mis	101770	£250.00
Cyngor Sir Ceredigion (Rhent yr olygfan)	101771	£5.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Peter Williams bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Grantiau a gytunwyd gan y Cyngorwyr fis diwethaf:

Clwb Pêl-droed Penyparc	101772	£200.00
Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion	101773	£100.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	101774	£250.00
Ambiwylans Awyr Cymru	101775	£100.00
Cruse Ceredigion	101776	£50.00
Ysgol Gymunedol Penparc	101777	£200.00
Canolfan Therapi Ocsigen Aberteifi	101778	£100.00
Treialon Cŵn Defaid Ferwig	101779	£100.00
Cymdeithas y Gambo	101780	£150.00
CFFI Penyparc	101781	£100.00

Materion ariannol eraill:

Ffurflen flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

Cyflwynwyd hon gan Mrs Hildreth Owen. Cynigiwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins fod y ffurflen hon yn gywir.

Arwyddwyd y ddogfen gan y Cadeirydd, y Cyng. Auriol Williams, a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, Mrs Hildreth Owen, ym mhresenoldeb y Cyngor ar 13 Mai 2019.

Derbyniadau: Traean o braesept 2019-20 = £7,000.00.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

14. Gohebiaeth:

1	Cyngor Sir Ceredigion	Hysbysiadau Etholiad Seneddol Ewropeaidd 23 Mai 2019	Poster wedi'u gosod ar yr hysbysfyrddau
2	Pwyllgor Lles Pentref Penparc	Llythyr yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r cae pêl-droed ar ddiwrnod y Carnifal ar 6 Gorffennaf 2019.	Cytunwyd bod y Pwyllgor yn cael defnyddio'r cae.

15. Materion Eraill:

- ROSPA.** Clerc i drefnu hyn ar ôl cael cyngor gan y cyn-glerc.
- Maes Parcio Gwylfan Gwbert.** Cytunodd y Cynghorydd Matthew Morgan i wneud trefniadau ar gyfer trwsio'r ceudyllau.
- Hysbysiad teils yng Ngwbert:** Perchennog wedi rhoi caniatâd i'w osod yno
- Llinellau gwyn yn Patch:** Dywedodd y Cyng. Clive Davies iddo ofyn am ailwneud y llinellau gwyn y tu allan i'r Clwb Hwyllo.
- Coed yn Patch:** Rhoddodd y Cyng. Clive Davies wybod fod bwriad i wneud ymchwiliad safle i'r coed yn Patch. Gofynnwyd i'r Cyng. Dilwyn Jenkins holi'r achwynydd eto ynglŷn â'r rhain i ddarganfod pwy oedd â'r cyfrifoldeb amdanu nhw.

16. Dogfennau'r Cyngor:

Asesiad Risg ar y Cyfrifon.
Cynllun yr Iaith Gymraeg
Strategaeth Fuddsoddi Flynnyddol

Copi ar gael gan y Clerc.
Copi ar gael gan y Clerc.
Copi ar gael gan y Clerc.

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Peter Williams fod yr uchod yn cael eu cymeradwyo ar yr amod bod y dyddiadau'n cael eu haddasu.

Bydd y Clerc yn addasu'r rhain er mwyn iddynt gael eu harwyddo yn y cyfarfod nesaf.

17. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies

- Casglu Gwastraff** – eglurodd fod y diwrnodau casglu wedi newid mewn ambell i fan yn y gymuned ers 10 Mai. Esboniodd y drefn newydd o ran casglu biniau ailgylchu a sachau duon.
- Marine Group** – Bydd y Cynghorydd yn cwrdd â Phennaeth y Marine Group fis nesaf at ddibenion datblygu Patch yn y tymor hir. Arian i ddod o'r Growing Mid Wales Fund. Gofynnodd y Cyng. Peter Williams pe na fydd Llywodraeth Llundain yn cyfrannu at hyn yn dilyn Brexit, beth fydd y cynllun wrth gefn i dalu amdano gan nad yw'r arian wedi dod i law eto. Cytunodd y Cyng. Clive Davies i ofyn ynghylch hyn. Yn ogystal, roedd yn bwriadu cwrdd ag Arwyn Davies o Ddatblygu Rhanbarthol yr Economi ynghylch codi arian.
- Place Plans** – dywedodd iddo lunio holiadur cyffredinol i bobl ei lenwi. Bwriad hwn oedd ceisio datblygu pethau newydd yn Aberteifi a'r cylch. Gallai'r cynghorau rhoi cyllideb yn ei le o bosibl. Nododd fod cyfarfod wedi'i gynnal yr wythnos gynt gyda chynrychiolwyr prif drefi Ceredigion yn bresennol. Cafwyd blas o weithgareddau pawb ac mae tref Aberteifi i weld yn mynd ar y trywydd iawn. Ymholiadau ar waith gyda phrosiect ariannu Cynnal y Cardi.
- Fairways** – Dywedwyd bod y les i ofalu am yr afon yn nwylo'r Cyngor Cymuned, nid y Cyngor Sir. Roedd angen gwybod beth oedd yn digwydd yn ardal Patch.
- Heol Mwnt** – Gwaith wedi dechrau o'r grid gwartheg i'r sied.

18. Unrhyw Fater Arall

- Gwylwyr y Glannau** - Cododd y Cyng. Dilwyn Jenkins ofid am gau gorsaf Gwylwyr y Glannau yng Ngwbert. Soniodd fod offer wedi mynd ac nid oes digon o bobl i wirfoddoli. Er mwyn parhau, byddai'n rhaid i'r gwirfoddolwyr fynd i ffwrdd am gwrs Cymorth Cyntaf ond roedd hi'n amhosibl i lawer wneud hynny oherwydd eu hymrwymiaidau gwaith. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu llythyr at y pencadlys. Soniodd y Cyng. Clive Davies iddo siarad â Carys Lloyd a'i hysbysodd fod Ben Lake AS yn cael cyfarfod â'r Gweinidog Morol ar 20 Mai. Byddai adroddiad yn dilyn.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (b) **Canolfan Iechyd Aberteifi** – Cododd y Cyng. Dilwyn Jenkins fater gwasanaeth y Ganolfan Iechyd gan fod nifer o gwynion wedi dod i law am amserau aros i ateb y ffôn ac ati. Cytunwyd i anfon llythyr at reolwr y practis i fynegi pryderon.
- (c) **Llinellau Melyn yn Patch** – Crybwyllodd y Cyng. Dilwyn Jenkins fod pobl wedu dechrau parcio mewn mannau eraill yn dilyn peintio'r llinellau melyn. Dywedodd fod angen maes parcio yng Ngwbert i ddelio â hyn. Y Cyng. Clive Davies i grybwyll hyn wrth y Cyngor.
- (ch) **Penyparc** - Gofynnodd y Cyng. Llinos Price pryd oedd y Cyngor yn bwriadu peintio'r llinellau melyn yn y pentref. Dywedodd hefyd fod angen ailwneud yr arwyddion baw cŵn yn y pentref. Cadarnhaodd y Cyng. Clive Davies fod y Cyngor yn fodlon creu rhai parhaol. Parcio ar y palmant – soniodd y Cyng. Llinos Price fod hyn yn broblem i drigolion Penyparc.
- (d) **Gyrru'n gyflym** – dywedodd y Cyng. Llinos Price iddi gysylltu â Thai Ceredigion ynglŷn â gyrru peryglus. Nid oes llawer wedi digwydd i wella'r sefyllfa. Dywedodd y Cyng. Clive Davies y byddai'n hapus i siarad â'r heddlu i drafod y ddau fater uchod ac i ofyn am fwy o bresenoldeb y PCSOs yn y gymuned. Soniodd y Cyng. Clive Davies am y bwriad i sefydlu *Community Speedwatch* yn y pentref.

19. Dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol nesaf: 3 Mehefin 2019 (F)

Cyfarfodydd y Cyngor am 2019

1 Gorffennaf (YB) 2 Medi (F) 7 Hydref (YB) 4 Tachwedd (F) 2 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Annual General Meeting held on 13 May 2019 at 7.30pm at Penyparc Chapel

Present:

Cllr Dilwyn Jenkins (*Chairperson*)

Cllr Llinos Price

Cllr Peter Williams

Cllr Clive Davies (*Local Member of the County Council*)

Mrs Melanie Davies (*Clerk*)

Cllr Auriol Williams (*Vice Chairman*)

Cllr Matthew Morgan

Cllr Lloyd Jenkins

Mrs Hildreth Owen (*previous Clerk, left 7.45pm*)

1. Chairman's welcome.

The Chairperson, Cllr Dilwyn Jenkins welcomed all to the annual meeting in the newly restored Chapel. He congratulated the chapel members for their work. He thanked Cllr Ann Stokoe's 20 years of service to the Council.

2. Appointment of a Chairperson for the year 2019-20

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins that Cllr Auriol Williams be elected Chairperson of the Council for the year 2019-20; this was seconded by Cllr Lloyd Jenkins. Cllr Auriol Williams thanked Cllr Dilwyn Jenkins for his 40 years of service to the council this July. She thanked him for his hard work and congratulated him for reaching this milestone. She thanked Mrs Hildreth Owen for her work as clerk over the past nine years.

3. Signing the document "Declaration of Acceptance of Office" and undertaking to observe the current Code of Conduct.

The Chairperson, Cllr Auriol Williams, was invited to read and sign the "Declaration of Acceptance of Office" document.

4. Appointment of a Vice-Chairperson for the year 2019-20

It was proposed by Cllr Matthew Morgan that Cllr Lloyd Jenkins be appointed Vice-Chairperson for the year 2019-20. This was seconded by Cllr Peter Williams.

5. Apologies for absence: Cllrs Lyn Jones, Eurig Lloyd, Des Davies

6. Personal and Prejudicial Interest: None

7. Chairman's Allowance for the year 2019-20:

It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Lloyd Jenkins that the sum of £500 per annum be agreed; this sum to be paid in two equal instalments.

8. External Appointments for 2019-20:

a) Ystafell Berkley Management Committee

Cllrs Dilwyn Jenkins, Llinos Price, Peter Williams, Des Davies and Lloyd Jenkins

b) Pwyllgor Lles Penyparc Representatives

Cllrs Des Davies, Llinos Price

c) Pwyllgor Lles a Neuadd y Ferwig Representative

Chairperson

d) Afon Teifi Fairways Committee Ltd.

Cllr Dilwyn Jenkins

e) Governing Board Ysgol Gymunedol Penyparc

Cllr Eurig Lloyd

f) Solicitors

George, Davies & Evans, Cardigan

g) Council's Accounts' Scrutineer

Cllr Matthew Morgan

h) Accounts Internal Auditor

Mr Ken Griffiths, Lleifior, Ferwig

9. Minutes of previous monthly meeting:

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Lloyd Jenkins that the April minutes are correct.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

10. Matters arising:

- (a) **Porth y Gymuned:** It was agreed that Carys Owens would come to the July meeting to give a presentation.
- (b) **Election of New Councillor:** Arrangements need to be made to advertise for a vacancy in the Council. Clerk will make enquiries.

11. Requests for financial support:

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.
 Bobath Children's Therapy Centre for Wales. To be discussed in October 2019

12. Planning:

<i>Application Ref:</i>	<i>Address and Proposal</i>	<i>Comments</i>
A190239	Clyn Bach, Gwbert Restoration of dwelling and erection of an extension	Members have no objections.

The above observations were forwarded to the County Council on 14/05/19

13. Financial Matters.

Bills paid

Clerk's Salary (April 2019)	101763	£308.97
Clerk's expenses (April 2019)	101764	£48.00
PAYE: Clerk's income tax (April 2019)	101765	£77.00
Welsh Water (Water for changing rooms, Ystafell Berkley)	101766	£68.24
Mr Ken Griffiths (Internal Audit)	101767	£165.00
Insignia	101768	£85.06
Zurich	101769	£734.18
Chairpersons' allowance for six months	101770	£250.00
Ceredigion County Council (Gwbert Viewpoint rent)	101771	£5.00

It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Peter Williams that the above bills be paid.

Payment of grants agreed by Councillors at the April meeting:

Penparc Football Club	101772	£200.00
Ceredigion International Sheepdog Trials	101773	£100.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	101774	£250.00
Wales Air Ambulance	101775	£100.00
Cruse Ceredigion	101776	£50.00
Ysgol Gymunedol Penparc	101777	£200.00
Cardigan Oxygen Therapy Centre	101778	£100.00
Treialon CWn Defaid Ferwig	101779	£100.00
Cymdeithas y Gambo	101780	£150.00
Penparc YFC	101781	£100.00

Other financial matters:

Annual return for the year ended 31 March 2019

Mrs Hildreth Owen presented this Return. It was proposed by Cllr Lloyd Jenkins and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the Council approves this return. The document was signed by the Chairperson, Cllr Auriol Williams and the Responsible Financial Officer, Mrs Hildreth Owen, in the Council's presence.

Receipts: One-third of the 2019-20 precept = £7,000.00.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

14. Correspondence:

1	Ceredigion County Council	Parliamentary European Election Noctices 23 May 2019	Posters have been posted on noticeboards
2	Pwyllgor Lles Pentref Penparc	Letter asking for permission to use the football field on Carnival day on 6 July 2019.	It was agreed that the Committee could use the field.

15. Other Matters.

- ROSPA.** Clerk to organize this following advice from previous Clerk.
- Gwbert Viewpoint Carpark.** Cllr Matthew Morgan agreed to make arrangements to repair the potholes.
- Tile advertisement in Gwbert.** Owner has given permission to place it there.
- White lines in Patch.** Cllr Clive Davies informed Councillors of the intention to hold a site investigation for the trees in Patch. Cllr Dilwyn Jenkins was asked to question the complainant again regarding these in order to discover who is responsible for them.

16. Council Documents:

Risk Assessment Copy available with the Clerk.
Welsh Language Scheme Copy available with the Clerk.
Annual Investment Strategy Copy available with the Clerk

It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Peter Williams that the above documents be approved subject to amending the dates.

The Clerk will amend these and present them again to be signed at the next meeting.

17. Report by the County Councillor, Clive Davies

- Refuse collection** – he explained that collection days have changed in some places in the community since 10 May. He explained the new arrangements for collecting recycling bins and black bins.
- Marine Group** – The Councillor will be meeting with the Marine Group Chief next month in order to develop Patch long term. Money to come from the Growing Mid Wales Fund. Cllr Peter Williams asked if the government in London won't contribute to this following Brexit, what would be the contingency to cover it as money has not been received as of yet. Cllr Clive Davies agreed to enquire. Also, he intended to meet with Arwyn Davies from Economic Regional Development regarding fund raising.
- Place Plans** – he informed that he had created a general questionnaire for completion. The aim is to try and develop new things in Cardigan and the surrounding area. Councils could have a budget in place. He noted that a meeting had been held the previous week with representatives from Ceredigion's main towns present. Everyone provided a taste of each others' activities and Cardigan seems to be on the right track. Enquiries are ongoing with Cynnal y Cardi funding project.
- Fairways** – It was stated that the Community not County Council were responsible for the lease for the care of the river. There is a need to know what's happening in the Patch area.
- Mwnt Road** – Work has begun from the cattle grid to the shed.

18. Any Other Business

- Coastguards** – Cllr Dilwyn Jenkins raised concern regarding the closure of the Coastguard station in Gwbert. He mentioned that equipment had been taken and that there aren't enough people to volunteer. In order to continue, volunteers would have to go away for a First Aid course which is impossible for many due to work commitments. The clerk was asked to write a letter to the headquarters in Southampton. Cllr Clive Davies mentioned that he had spoken to Carys Lloyd who informed him that Ben Lake MP was meeting with the Maritime Minister on 20 May. Report to follow.
- Cardigan Health Centre – Cllr Dilwyn Jenkins raised the issue regarding the service at the Health Centre as numerous complaints had been received regarding waiting times for telephone replies etc. It was agreed that a letter would be sent to the practice manager to express concern.
- Yellow lines in Patch – Cllr Dilwyn Jenkins mentioned that following the painting of yellow lines, people had resorted to parking elsewhere. He stated that a car park is needed in Gwbert to deal with this. Cllr Clive

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Davies to raise this with the Council.

- (d) Penyparc – Cllr Llinos Price asked when was the Council intending on painting the yellow lines in the village. She also stated the need to repeat the dog mess signs in the village. Cllr Clive Davies confirmed that the Council is prepared to produce permanent ones.
- (e) Parking on pavement – Cllr Llinos Price mentioned that this is an issue for Penyparc residents.
- (f) Speeding – Cllr Llinos Price stated that she had contacted Tai Ceredigion regarding dangerous driving. Not much has been done to improve the situation. Cllr Clive Davies said he would be prepared to talk to the police to discuss both issues noted above and to ask for more PCSO presence in the community. Cllr Clive Davies mentioned the aim to establish a Community Speedwatch in the village.

19. Date of next Council Meeting: 3 June 2019 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

Council Meetings for 2019

1 July (YB) 2 September (F) 7 October (YB) 4 November (F) 2 December (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting